Llywodraeth Cymru

Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion

# Fframwaith Pontio Teg – Crynodeb gweithredol

Mehefin 2024

Teitl:
Fframwaith Pontio Teg –
Crynodeb gweithredol

Awdur(on): Alma Economics

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Is-adran: Newid Hinsawdd a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ClimateChange@llyw.cymru

# 1. Crynodeb gweithredol

## 1.1. Cefndir y prosiect

1.1.1. Gan gydnabod bod rhaid cynllunio a chydgysylltu cyfnod pontio teg yn effeithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig Fframwaith Pontio Teg i Gymru. Nod y Fframwaith hwn, a gaiff ei lywio gan Alwad am Dystiolaeth[1] a thrafodaethau â rhanddeiliaid, yw creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd tra hefyd yn ystyried tegwch cymdeithasol. Er mwyn ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd a llywio'r Fframwaith Pontio Teg terfynol, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad[2] ar y Fframwaith arfaethedig a chyfres o ddigwyddiadau 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd'.[3]

1.1.2. Roedd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Pontio Teg ar agor rhwng 4 Rhagfyr 2023 ac 11 Mawrth 2024 ac roedd yn cynnwys 12 cwestiwn fformat agored yn canolbwyntio ar wyth maes allweddol: integreiddio, gweledigaeth, egwyddorion arweiniol, sylfaen dystiolaeth, ysgogi rhanddeiliaid ac ymgysylltu, pecyn cymorth, cynllunio ac effeithiau ar yr iaith Gymraeg. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd Sgyrsiau ar yr Hinsawdd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru cyn, yn ystod, ac ar ôl Wythnos Hinsawdd Cymru 2023, gan archwilio sut i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn deg.

## 1.2. Trosolwg o'r ymatebwyr

1.2.1. Derbyniodd yr Ymgynghoriad ar Fframwaith Pontio Teg gyfanswm o 106 o ymatebion, gyda 59 y cant wedi'u cyflwyno drwy ffurflen ar-lein a 41 y cant drwy e-bost. Ymhlith y rhain, roedd 49 gan unigolion a 57 gan sefydliadau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr unigol (82 y cant) dros 50 oed, ac roedd 17 y cant ohonynt yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Y sectorau uchaf a gynrychiolwyd ymhlith ymatebwyr oedd Amaethyddiaeth (17 y cant), Cynhyrchu Ynni a Gwres (14 y cant), Adeiladau Preswyl (13 y cant), a Choedwigaeth a Defnydd Tir (13 y cant).

[1] Llywodraeth Cymru, 'Synthesis Galwad am Dystiolaeth Pontio Teg', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/pontio-teg-tuag-sero-net-cymru (Cyrchwyd 16 Mai 2024).

[2] 'Fframwaith Pontio Teg' ar gael yn: https://www.llyw.cymru/crynodeb-or-fframwaith-pontio (Cyrchwyd 16 Mai 2024).

[3] 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd, ar gael yn: https://www.climateweek.gov.wales/CY/pages/Climate_conversations (Cyrchwyd 16 Mai 2024).

1.2.2. Ar wahân, cyflwynwyd 37 o adroddiadau o ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd, gyda chyfanswm o bron i 2,000 yn mynychu. Cynhaliodd cymunedau[4] y rhan fwyaf o'r digwyddiadau, sef 62 y cant. Roedd awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol (Ysgolion, Colegau, Prifysgolion) bob un wedi trefnu 14 y cant o'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd, a chynhaliwyd 11 y cant gan elusennau. Croesawodd y digwyddiad mwyaf 330 o gyfranogwyr a mynychwyd y digwyddiad lleiaf gan 4 o bobl, gyda 56 o gyfranogwyr yn bresennol ar gyfartaledd.

## 1.3. Canfyddiadau'r dadansoddiad o'r Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg

### Themâu trosfwaol

1.3.1. Nodwyd tair prif thema drwy gydol yr ymgynghoriad a chawsant eu categoreiddio fel themâu trosfwaol. Y rhain oedd (i) pwysigrwydd cynnwys ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol drwy gydol y broses o ddylunio, cynhyrchu a gweithredu'r cyfnod pontio teg, gyda phwyslais arbennig ar gydgynhyrchu ac ymgysylltu â chymunedau; (ii) anghytundeb cyffredinol gyda phontio i sero net, gyda'r ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu targedau sero net ac yn mynegi pryderon ynghylch effeithiau economaidd negyddol; a (iii) sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio.

1.3.2. Mae'r is-adrannau sy'n weddill yn dilyn y strwythur a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.

### Adran Fframwaith: Cyflwyniad

1.3.3. Roedd yr adran hon yn cynnwys tri chwestiwn, a oedd yn canolbwyntio ar y Weledigaeth arfaethedig, y dull gweithredu, a'r strwythur trosfwaol ar gyfer pontio teg yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r Weledigaeth ar y cyfan, ond yn aml galwyd am i'r Weledigaeth gael mwy o ffocws ar natur a chadwraeth amgylcheddol a mynediad teg at drafnidiaeth a thai ynni-effeithlon. Cafodd y maes cyntaf, sef natur a gwarchod yr amgylchedd, ei hawgrymu gan ymatebwyr unigol a sefydliadol, gyda'r mwyafrif o'r sefydliadau a gododd y maes ffocws hwn yn cynrychioli materion amgylcheddol. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r dull gweithredu arfaethedig, gyda nifer fawr yn croesawu'n benodol rôl Deddf

[4] Mae hyn yn cynnwys sefydliadau o fewn y trydydd sector (e.e. grwpiau gwirfoddol, mentrau cydweithredol a mathau eraill o rwydweithiau sy'n cynrychioli grwpiau ymylol).

Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol[5]. Roedd ymatebwyr i’r trydydd cwestiwn yn tueddu i groesawu’r strwythur trosfwaol. Fodd bynnag, beirniadodd rhai ei ddiffyg penodolrwydd a galw am ganllawiau cliriach.

### Adran Fframwaith: Rhan 1 – Integreiddio pontio teg yn ein penderfyniadau

1.3.4. Roedd yr adran hon yn cynnwys dau gwestiwn, un yn canolbwyntio ar yr egwyddorion arweiniol ar gyfer pontio teg a’r llall yn canolbwyntio ar ddull arfaethedig o gynllunio pontio teg, drwy ystyried cyd-destunau geo-ofodol, sefydliadol, datblygu polisi, a chyfannol. Beirniadodd rhai ymatebwyr yr egwyddorion arweiniol am fod yn rhy amwys, a galwyd am eglurder ynghylch sut y byddai'r egwyddorion yn effeithio ar wneud penderfyniadau. O ran dulliau cynllunio pontio, roedd ymatebwyr yn aml yn sôn am bwysigrwydd cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol yn y trafodaethau hyn ac yn galw am astudiaethau achos ac enghreifftiau i randdeiliaid ‘Tîm Cymru’ ddysgu oddi wrthynt a’u gweithredu.

### Adran Fframwaith: Rhan 2 – Adeiladu ein sylfaen dystiolaeth

1.3.5. Roedd yr adran hon yn cynnwys un cwestiwn, yn canolbwyntio ar y lensys arfaethedig ar gyfer archwilio canlyniadau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pontio teg. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn croesawu’r lensys, yn enwedig y lens ofodol sy’n cydnabod y bydd gwahanol rannau o Gymru’n cael eu heffeithio’n wahanol. Roedd cymysgedd o'r ymatebwyr unigol a sefydliadol, gyda mwyafrif y sefydliadau’n cynrychioli materion amgylcheddol, yn galw am ffocws cryfach ar gadwraeth natur fel rhan o’r lensys hyn. Pwysleisiodd set arall o ymatebwyr bwysigrwydd y lens busnes a chyflogaeth.

### Adran Fframwaith: Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd

1.3.6. Roedd y cwestiynau yn yr adran hon yn mynd i’r afael â rolau a chyfrifoldebau arfaethedig i gyflenwi pontio teg a’r ffordd orau o gynnwys pobl a chymunedau Cymru. Yn gyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses o bontio teg, gan awgrymu y dylid integreiddio cyfrifoldeb i bartneriaethau presennol fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roeddent hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio sefydliadau sy’n bodoli eisoes – megis

[5] ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015’, ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents (Cyrchwyd 16 Mai 2024).

undebau llafur, awdurdodau lleol, a grwpiau cymunedol – i hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a chodi ymwybyddiaeth o bontio teg, yn hytrach na chreu cyrff newydd.

### Adran Fframwaith: Rhan 4 – Pecyn Cymorth

1.3.7. Roedd yr adran hon yn canolbwyntio ar becyn cymorth arfaethedig ar gyfer gweithredu pontio teg. Darparodd rhai ymatebwyr argymhellion penodol i wella'r pecyn cymorth – yn arbennig i sicrhau bod fersiynau wedi'u symleiddio a'u teilwra ar gael i sefydliadau, gydag astudiaethau achos penodol o arfer gorau – ond fel arall, roedd croeso cyffredinol i'r pecyn cymorth.

### Adran Fframwaith: Rhan 5 – Cwestiwn Iaith Gymraeg a sylwadau agored

1.3.8. Roedd yr adran hon yn cynnwys tri chwestiwn. Roedd dau o'r cwestiynau yn canolbwyntio ar effaith bosibl y Fframwaith ar y Gymraeg. Roedd gan ymatebwyr farn gymysg ar hyn, a thema amlaf Cwestiwn 10 oedd y byddai'r Fframwaith yn debygol o hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi argaeledd swyddi sy'n talu'n dda mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn bennaf yn y sectorau amaethyddol ac ynni adnewyddadwy.

1.3.9. Gadawodd y cwestiwn olaf le i grybwyll unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd wedi cael sylw penodol mewn cwestiynau blaenorol. Defnyddiodd rhai ymatebwyr y gofod hwn i leisio eu hanghytundeb cyffredinol ynghylch pontio i sero net. Roedd set arall o ymatebwyr yn cefnogi'r Fframwaith Pontio Teg ond yn pwysleisio'r angen am ffocws cryfach ar feysydd allweddol, gyda chadwraeth natur yn cael ei nodi amlaf.

## 1.4. Canfyddiadau'r dadansoddiad am Sgyrsiau am yr Hinsawdd

1.4.1. Roedd digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn canolbwyntio ar y thema gyffredinol 'Sut mae mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn ffordd deg?' Ar gyfer Cwestiwn 1, gofynnwyd i'r trefnwyr drafod gyda'r rhai a oedd yn bresennol sut y gellir lleihau allyriadau tra'n ystyried tegwch, ynghyd â sicrhau lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oedd llawer o adroddiadau'n canolbwyntio ar yr agwedd 'tegwch' o'r cwestiwn trosfwaol.

1.4.2. Y thema a godwyd amlaf mewn adroddiadau oedd y farn y dylai Llywodraeth Cymru alluogi a chefnogi atebion ar lefel gymunedol i sicrhau bod camau gweithredu'n decach drwy gwrdd ag anghenion cymunedol ac ymateb yn well iddynt. Roedd adroddiadau'n aml yn galw am fwy o gymorth ariannol a chymhellion, gan sicrhau

cyfle cyfartal i bob unigolyn gael mynediad at arferion cynaliadwy a'u mabwysiadu, ynghyd â'r angen am fuddsoddiad mwy sylweddol yn y seilwaith trafnidiaeth. Amlygwyd addysg yn gyffredinol fel rhywbeth hanfodol, gyda rhai adroddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd mynediad cyfartal i addysg werdd a'i hintegreiddio i gwricwlwm ysgolion. Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddiant swyddi a sgiliau i hwyluso'r cyfnod pontio i weithwyr yr effeithir arnynt gan ddatgarboneiddio, yn enwedig unigolion ar incwm isel. Galwyd am fwy o gynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau, newidiadau polisi i fynd i'r afael â gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, a gwell monitro ac atebolrwydd i sicrhau bod busnesau'n cyflawni nodau amgylcheddol.

1.4.3. Roedd y drafodaeth ar Gwestiwn 2 yn canolbwyntio ar gynnwys pobl yn deg mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a nodi penderfynwyr allweddol. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Argymhellwyd dull cyfannol yn cynnwys rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys y llywodraeth, gwyddonwyr, trigolion lleol, a grwpiau cymunedol, i gyfoethogi'r ddeialog. O ran sut i gynnwys grwpiau, roedd llawer o adroddiadau'n amlygu'r angen am fwy o ymgysylltu â'r gymuned trwy gyfarfodydd a digwyddiadau rheolaidd mewn amrywiol ieithoedd i ehangu allgymorth. Roedd galw am well strategaethau cyfathrebu i wneud gwybodaeth newid hinsawdd yn hygyrch i bawb, yn ogystal â ffocws cryfach ar addysg i annog cyfranogiad gweithredol. Awgrymwyd camau gweithredu ymarferol a chymhellion ariannol i hyrwyddo prosiectau cynaliadwyedd a yrrir gan y gymuned. Yn olaf, pwysleisiodd rhai adroddiadau bwysigrwydd cynwysoldeb a chynrychiolaeth, gyda phwyslais ar ymgysylltu â lleiafrifoedd a mynd i'r afael â'u tangynrychiolaeth mewn rolau amgylcheddol.

## 1.5. Casgliad

1.5.1. Mae Fframwaith Pontio Teg i Gymru Llywodraeth Cymru yn anelu at sero net tra'n hyrwyddo tegwch cymdeithasol. Datgelodd yr ymgynghoriad a'r digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd fod angen strategaeth glir y gellir ei gweithredu, gydag ymgysylltiad cadarn â rhanddeiliaid.

1.5.2. Amlygodd ymatebwyr i'r Ymgynghoriad ar y Fframwaith Pontio Teg bwysigrwydd cynwysoldeb a chydraddoldeb drwy gydol y cyfnod pontio, pwysigrwydd cynnwys canllawiau pendant yn y Fframwaith, megis enghreifftiau ac astudiaethau achos o arfer gorau, ac roeddent yn croesawu rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i

gefnogi dull cyfannol a’r dull arfaethedig o gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o bontio.

1.5.3. Roedd y dadansoddiad o’r adroddiadau digwyddiad Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn tanlinellu themâu megis datrysiadau ar lefel gymunedol, cymorth ariannol, gwell seilwaith trafnidiaeth, a buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant. Roedd adroddiadau’n galw am gyfranogiad teg mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn enwedig ymgysylltu â grwpiau agored i niwed.

1.5.4. Nodwyd themâu yn yr ymgynghoriad ac yn y Sgyrsiau am yr Hinsawdd, gan gynnwys pwysigrwydd (i) ystyriaethau ynghylch busnes a chyflogaeth, (ii) gweithredu mentrau cymunedol, a (iii) yr angen i ymglymu rhanddeiliaid yn gynhwysol.

1.5.5. At ei gilydd, mae’r mewnwelediadau’n amlygu’r angen am Fframwaith Pontio Teg clir, cynhwysol a gweithredadwy sy’n trosoli partneriaethau presennol ac yn grymuso cymunedau, gan sicrhau pontio teg a chyfiawn i ddyfodol gwyrddach i Gymru.